**CABINET - DYDD MAWRTH, 6 EBRILL 2021**

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN I'W GYNNAL O BELL TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD MAWRTH, 6 EBRILL 2021, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |
| NA Burnett | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |

647. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y buddiannau rhagfarnus canlynol mewn perthynas ag eitem 5 ar yr Agenda:-

Y Cynghorydd RE Young – Fel aelod o Gyngor Cymuned Coety Uwch, a grybwyllwyd yn yr adroddiad.
Y Cynghorydd N Burnett – Fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.
Y Cynghorydd HJ David – Fel aelod o Gyngor Cymuned Cefn Cribwr, a oedd wedi gwneud cais i'r Gronfa.

Gadawodd yr holl Aelodau uchod y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried a daeth y Cynghorydd EM Williams i'r Gadair nes i'r adroddiad gael ei benderfynu ac wedi hynny dychwelodd yr Arweinydd, y Cynghorydd David, i'r cyfarfod fel Cadeirydd.

648. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

649. GWARCHODFEYDD NATUR LLEOL BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i ddatgan bod Parc Bedford yn Warchodfa Natur Leol ac i ymestyn ffin Gwarchodfa Natur Leol bresennol Frog Pond i gynnwys yr ardal a elwir Village Farm Meadow. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer dulliau rheoli ac adnoddau ar gyfer y ddau safle yn y dyfodol.

Er gwybodaeth gefndirol, dywedodd fod Gwarchodfeydd Natur Lleol yn bodoli i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau a darparu cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol mewn cymunedau. Caiff Gwarchodfeydd Natur Lleol eu sefydlu a'u rheoli gan awdurdodau lleol, yn dilyn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Er mwyn i safle ddod yn Warchodfa Natur Leol, rhaid iddo fod â nodweddion naturiol o ddiddordeb arbennig i'r ardal leol, a rhaid i'r awdurdod naill ai fod â buddiant cyfreithiol yn y tir neu fod â

chytundeb gyda'r perchennog i reoli'r tir fel gwarchodfa. Yng Nghymru mae Gwarchodfeydd Natur Lleol wedi'u dynodi dros nifer o flynyddoedd, o 1970 hyd heddiw, ac maent yn parhau.

Ar hyn o bryd mae pum Gwarchodfa Natur Leol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Gwarchodfa Natur Leol Cynffig hefyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol nad yw bellach yn cael ei rheoli gan CBSP. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu dosbarthu fel Gwarchodfeydd Natur Lleol oherwydd y rhywogaethau a'r cynefinoedd penodol sy'n bodoli ynddynt. Y gwarchodfeydd yw:

- Comin Locks, Porthcawl
- Craig y Parcau, Pen-y-bont ar Ogwr
- Frog Pond Wood, y Pîl
- Coed Tremains, Bracla
- Gwarchodfa Natur Cynffig, Cynffig

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, fod dynodi Parc Bedford yn Warchodfa Natur Leol ac ymestyn Gwarchodfa Natur Leol Frog Pond Wood i gynnwys Village Farm Meadow, yn rhywbeth yr oedd gan CBSP y pŵer i'w wneud ac wedi'i alinio â pholisïau cenedlaethol a lleol.

Esboniodd fod Parc Bedford a Village Farm Meadow yn Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o dan ddarpariaethau Polisi ENV4 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2013-2022 a fabwysiadwyd gan Ben-y-bont ar Ogwr. Y sail ar gyfer y dynodiadau hyn yw bod gan y ddau safle gynefinoedd a rhywogaethau o arwyddocâd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y mae angen eu diogelu o dan y System Cynllunio Gwlad a Thref.

At hynny, roedd y CDLl yn cynnwys Polisi ENV5, sy'n hyrwyddo'r cysyniad o ddull Seilwaith Gwyrdd. Ystyriwyd bod Seilwaith Gwyrdd yn rhwydwaith wedi'i gynllunio a'i gyflenwi'n strategol o fannau gwyrdd (tir) a glas (dŵr) naturiol a rhai a wnaed gan ddyn sy'n cynnal prosesau naturiol. Fe'i cynlluniwyd a'i reoli fel adnodd amlswyddogaethol sy'n gallu sicrhau ystod eang o fanteision amgylcheddol ac ansawdd bywyd i gymdeithas. CBSP oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i ymgorffori polisi o'r fath yn ei CDLl, ychwanegodd.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio ei fod yn hapus i gefnogi argymhellion yr adroddiad a theimlai fod hon yn fenter ragorol ac y byddai cost y cynigion, mewn gwirionedd, yn fuddsoddiad y gallai'r cyhoedd ei fwynhau am byth.

Teimlai'r Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol fod diogelu'r ardaloedd hyn yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, o ganlyniad i hyn, byddai bwriadau'r adroddiad yn gwasanaethu'r cyhoedd yn dda o ran ymweld â'r ardaloedd hyn at ddibenion eu mwynhau yn y dyfodol. Gofynnodd a ellid rhoi eglurhad pellach, o ran rheoli'r ardaloedd, h.y. beth fyddai hyn yn ei olygu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, fod hyn yn golygu staff yn gofalu am yr ardaloedd ac yn eu cynnal a'u cadw ac i ofalu am elfennau ecoleg y bywyd gwyllt a fyddai'n dod o hyd i'w cynefin yno. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal ardal ar gyfer ystlumod, darparu blychau ystlumod a sicrhau bod amodau ar waith i bathewod ffynnu yno hefyd. Byddai byrddau gwybodaeth hefyd yn cael eu rhoi yn y lleoliad, er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y bywyd gwyllt a fydd yn gwneud yr ardaloedd hyn yn gartref iddynt.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai'r cynigion uchod yn sicrhau y byddai'r ardaloedd dan sylw yn dod yn lleoliadau bioamrywiaeth allweddol, y gallai trigolion cyfagos eu

mwynhau, gan fod y rhain hefyd yn agos at laswelltiroedd Cefn Cribwr, Gwarchodfa Natur Parc Slip a hen safle Glo Brig, a oedd yn feysydd eraill o ddiddordeb a/neu safleoedd gwarchodedig.

Gofynnodd yr Arweinydd i Warchodfa Natur Leol Parc Bedford gael ei henwi i adlewyrchu hunaniaeth a hanes yr ardal a'r defnydd o'r Gymraeg drwy ymgorffori Waun Cimla yn enw'r warchodfa natur leol newydd. Nodwyd mai Waun Cimla oedd yr ardal a'r enw a ddefnyddid mewn mapiau a dogfennau eraill.

Daeth yr Aelod Cabinet – Cymunedau â’r ddadl i ben ar yr eitem hon, drwy ddweud ei fod yn cael ei annog i weld yr awdurdod lleol yn cadw'r ecoleg mewn rhannau o'r Fwrdeistref
Sirol, fel y rhain a enghreifftiwyd yn yr adroddiad a rhai fel Parc Bedford a'i Waith Haearn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi:-

- Datgan yn ffurfiol bod Parc Bedford yn Warchodfa Natur Leol newydd a bod ffin Gwarchodfa Natur Leol Frog Pond Wood yn cael ei hymestyn i gynnwys Village Farm Meadow;

- Awdurdodi’r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol, i sefydlu cynllun rheoli newydd ar gyfer Parc Bedford a chynllun rheoli diwygiedig ar gyfer Frog Pond Wood yn unol â'r dull a amlinellir yn adran 4 o'r adroddiad, gyda'r adnoddau a amlinellir yn adran 8.

650. DYRANIADAU O DAN GYNLLUN GRANT CYFALAF CYNGHORAU TREF A CHYMUNED 2020-21 A CHRONFA TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyrannu cyllid cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned, i ddatblygu prosiectau yn unol â'r argymhellion a geir yn yr adroddiad o Gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2021-22 a'r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT).

Dywedodd fod CBSP wedi dyrannu £50,000 ar gyfer 2021-22 a blynyddoedd dilynol yn y Rhaglen Gyfalaf gymeradwy, i gefnogi ceisiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Gwnaed ceisiadau i Gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2021-22 ar gael ym mis Ionawr 2021, gyda dyddiad cau o 26 Chwefror 2021 ar gyfer derbyn ceisiadau wedi’u cwblhau, yn cael ei sefydlu. Mae cyllid o hyd at £65,427.61 ar gael ar hyn o bryd ar gyfer grantiau yn 2020-21, fel yr adlewyrchwyd ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad.

Ailddynodwyd y Gronfa Pafiliwn Chwaraeon gwerth £1 miliwn, a sefydlwyd yn wreiddiol ym mis Chwefror 2014 i hyrwyddo trosglwyddo cyfleusterau chwaraeon, fel y Gronfa CAT ac ehangwyd y cyfle i ariannu o dan MTFS 2019-20 i 2022-23 ym mis Chwefror 2019, i gynnwys gwaith adeiladu ar gyfleusterau eraill y Cyngor megis canolfannau cymunedol a thoiledau cyhoeddus. Ym mis Chwefror 2020, cymeradwyodd y Cabinet hefyd y dylid ymestyn y Gronfa CAT ymhellach, gan gynnwys gwelliannau i leiniau a draeniau caeau chwarae. Cynlluniwyd y mesurau hyn i sicrhau bod y rhaglen CAT yn cael ei chefnogi a gellid cynnal cymaint o asedau â phosibl yn briodol, eu cadw ar agor a darparu manteision cymunedol hirdymor i breswylwyr mewn unrhyw leoliad penodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cymorth y gellid ei ddarparu yn 2020-21 gan fod y Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i ordanysgrifio, roedd modd defnyddio'r Gronfa CAT hefyd gan fod ceisiadau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon, a oedd yn galluogi i gynifer o brosiectau gael eu datblygu â phosibl. Arweiniodd hyn at ddyrannu £65,000 o dan y Gronfa CAT ar gyfer y 4 prosiect a amlinellir ym mharagraff 3.8 o'r adroddiad a oedd â chyfanswm gwerth prosiect cyfunol o £140,000.

Cadarnhaodd yr adroddiad ymhellach fod y Cabinet a Grŵp Llywio CAT, hyd yma, wedi dyrannu cyfanswm o £503,327.61 o gyllid drwy'r Gronfa CAT, a grynhoir yn y tabl ym mharagraff 3.9 ac a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

O ran y sefyllfa bresennol, mae'r cynigion a dderbyniwyd ar gyfer dyraniad Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned 2021-22 ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad. Ymhelaethwyd ar ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn a'r hyn yr oeddent yn ei olygu yn yr adran hon o'r adroddiad.

O ran y Prosiectau CAT nad ydynt yn gydweithredol, dangoswyd rhagor o wybodaeth am y rhain ym mharagraffau 4.10 a 4.11 o'r adroddiad.

Roedd gweddill yr adroddiad yn esbonio'r modd yr oedd CBSP yn bwriadu datblygu ymhellach ei drefniadau cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â Chynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned a'r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Byddai hyn yn eu galluogi i reoli a chynnal rhai cyfleusterau Cymunedol wrth symud ymlaen, fel rhan o gynlluniau cynaliadwy hirdymor.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad pellach maes o law, yn ogystal â chael ei annog i weld, fod y Cyngor yn edrych ar ffyrdd o weithio'n agosach gyda Chynghorau Tref a Chymuned, gyda'r farn eu bod yn archwilio ffyrdd o weithredu asedau cymunedol a'u rhedeg o ddydd i ddydd yn eu hardal yn y dyfodol.

Daeth yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol â'r ddadl ar yr eitem hon i ben, drwy gadarnhau sut y byddai'n gweld bod y rhan fwyaf o'r prosiectau sy'n cael eu dilyn yn gysylltiedig â defnyddio mannau chwarae i blant, a oedd yn bwysig iawn gan fod y rhain yn fannau lle gallai pobl ifanc fwynhau eu hunain mewn amgylchedd awyr agored cymharol ddiogel yn ystod y pandemig parhaus.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi:-

1. Cymeradwyo naw o gynlluniau'r Cynghorau Cymuned a Thref a amlinellir ym mharagraff 4.13 yn seiliedig ar y dyraniadau y manylir arnynt, sef cyfanswm o £108,327.61 (£65,427.61 - cynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned a £42,900.00 – Cronfa CAT).

2. Cytuno i dderbyn adroddiad pellach mewn perthynas â diwygiadau i'r Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned a'i dyfodol yn cyd-fynd ag agenda Dad-garboneiddio 2030.

651. <u>CYNLLUN CYFLAWNI'R GRANT CYMORTH TAI 2021-22</u>

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, er mwyn:

- Diweddaru aelodau ar Flaenoriaethau Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22;

- ceisio cymeradwyaeth i hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor yn unol â Rheol Gweithdrefn Contract 3.2.9.3 ar gyfer dau gontract presennol a ariennir gan y Grant Cymorth Tai;

- ceisio cymeradwyaeth i ddefnyddio dyraniad y Grant Cymorth Tai i barhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer prosiect llety â chymorth lefel isel Cam 2, a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021;

- atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor o ran y gofyniad i dendro am gontract a chytuno i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid ymrwymo i gontract gyda Pobl, er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth prosiect llety â chymorth sy'n bodoli eisoes;

- ceisio cymeradwyaeth i gynnig cynnydd o hyd at 5% yng ngwerth contract yr holl gontractau presennol a ariennir gan y Grant Cymorth Tai sydd gan CBSP gyda darparwyr cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn y trydydd sector, sy'n weithredol o 1 Ebrill 2021, ar y sail bod unrhyw gynnydd gwirioneddol yn digwydd yn uniongyrchol o ran telerau ac amodau gwell y gweithlu.

Dywedodd fod Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru wedi dod i fodolaeth ym mis Ebrill 2019, yn dilyn prosiect braenaru hyblygrwydd ariannu Llywodraeth Cymru. Daeth â thri grant blaenorol at ei gilydd - Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a Grant Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

Mae’r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran cartref, neu helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Roedd Canllawiau Ymarfer y Cynllun Cymorth Tai yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddatblygu Cynllun Cyflawni Cynllun Cymorth Tai blynyddol, a ddylai gynnwys y penawdau fel y'u cynhwysir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad.

Yn dilyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, rhoddir dyraniad Cynllun Cymorth Tai dangosol i Awdurdodau Lleol ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno i Lywodraeth Cymru eu Blaenoriaethau Cyflawni, Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, y Cynllun Gwariant ac Atodiad A: Dyletswyddau Statudol Digartrefedd, o'u Cynllun Cyflawni Cynllun Cymorth Tai blynyddol. Yna cynigir grant, yn dilyn cyhoeddi cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid mai dyraniad Cynllun Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yw £7,833,509.33. Mae hyn yn gynnydd o £1,878,966.49 (32%) o'r dyraniad yn 2020-21 o £5,954,542.84. Mae'r cynnydd o ganlyniad i ddyrannu £40m yn ychwanegol i gyfanswm cyllideb y Cynllun Cymorth Tai gan Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o gynllunio strategol parhaus CBSP, mae'r gwasanaeth tai yn ymgysylltu ag ystod amrywiol o randdeiliaid gan gynnwys drwy fynychu gwahanol fforymau megis Fforwm Landlordiaid CBSP, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Cell Ddigartrefedd, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol. Fel y cyfryw, cafwyd trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr cymorth.

Mae Strategaeth Ddigartrefedd bresennol Pen-y-bont ar Ogwr ar 2018-22 wedi llywio Blaenoriaethau Cyflawni'r Cynllun Cymorth Tai ar gyfer 2021-22. Datblygwyd y

Strategaeth ar sail cyd-gynhyrchu gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai â phrofiad byw ac yn dilyn canfyddiadau Adolygiad Digartrefedd annibynnol yn 2018.

Yn unol â gofynion y Cynllun Cymorth Tai a nodir ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad, cyflwynwyd Blaenoriaethau Cyflawni, Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Cynllun Gwariant ac Atodiad A: Dyletswyddau Statudol Digartrefedd CBSP i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y cyflwyniad hwn derbyniwyd dyfarniad cyllid o £7,833,509.33. Tynnwyd sylw at Flaenoriaethau Cyflawni'r Cynllun Cymorth Tai ar gyfer 2021-22 ym mharagraffau 4.8 i 4.12 o'r adroddiad.

Crynhodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, y rhain er budd y Cabinet.

Er mwyn cefnogi Blaenoriaethau Cyflawni Cynllun Cymorth Tai CBSP, gofynnwyd am gymeradwyaeth i hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract CBSP er mwyn codi dau gontract sy'n bodoli eisoes, fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad. Bydd cynnydd yn y gwasanaethau hyn yn darparu adnoddau ychwanegol i ddiwallu anghenion cymorth cyflwyniadau cynyddol, gan gynnwys y niferoedd cynyddol sy'n cael eu lletya mewn llety dros dro. Bydd cost y cynnydd arfaethedig yn cael ei dalu o ddyraniad Cynllun Cymorth Tai CBSP.

Ychwanegodd fod yr angen i addasu'r contractau i ddarparu'r cynnydd, er mwyn caniatáu i adnoddau ychwanegol gael eu darparu a oedd wedi'u cyflwyno gan bandemig Covid-19 a'r effaith ddilynol ar wasanaethau tai, fel y nodwyd ym mharagraff 4.10 o'r adroddiad, yn ogystal ag effaith gymdeithasol ac economaidd hirdymor ddisgwyliedig y pandemig.

Er mwyn cefnogi Blaenoriaethau Cyflawni Grant Cymorth Tai CBSP ymhellach, gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth i atal y Rheolau Gweithdrefn Contract ac ymrwymo'n uniongyrchol i gontract gyda Pobl i ganiatáu ar gyfer parhau â phrosiect llety â chymorth sy'n bodoli eisoes, a ariennir ar hyn o bryd drwy 'Gyllid Cam 2' Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am 'Gyllid Cam 2' mae Pobl wedi ymrwymo i gytundeb prydles ar gyfer 11 uned o lety yn ardal Maesteg. Daw'r cyllid presennol i ben ar 31 Mawrth 2021 ac, er mwyn parhau i gyflawni, mae angen contract newydd a chyllid pellach. Heb gyllid parhaus, byddai defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed yn cael eu gwneud yn ddigartref, a fyddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau digartrefedd, yn ogystal â chyfyngu ar opsiynau tai a chymorth yn y dyfodol i'r rhai mewn angen.

Cynigiwyd felly fod Cyllid Cam 2 yn parhau i gael ei ariannu o ddyraniad Cynllun Cymorth Tai CBSP a bod contract yn cael ei gynnwys gyda Pobl tan 31/12/2022, gydag opsiwn i ymestyn am hyd at 24 mis am uchafswm cost o £283,674.32 (£75,522.34 y flwyddyn).

Roedd angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol bod y Cyngor, wrth ddyfarnu'r contract hwn i Pobl, yn agored i'r risg o her bosibl gan ddarparwyr gwasanaethau o'r fath, fel yr amlygwyd ym mharagraff 4.18 o'r adroddiad.

Fel y nodir ym mharagraff 4.3, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na ddylid defnyddio pob cyllid uwch o'r Cynllun Cymorth Tai, o reidrwydd, i gomisiynu adnoddau ychwanegol. Maent wedi awgrymu bod Awdurdodau Lleol yn ystyried defnyddio cyllid i wobrwyo staff sy'n gweithredu yn y sector yn unol ag argymhelliad gan Grŵp Gweithredu Digartrefedd arbenigol.

I gydnabod gwerth CBSP ar weithlu'r darparwyr trydydd sector y mae'n eu comisiynu ac i gefnogi argymhelliad y Grŵp Gweithredu digartrefedd, gofynnir am gymeradwyaeth i ddyfarnu cynnydd o hyd at 5% yng ngwerth contract yr holl gontractau presennol a ariennir gan y Grant Cymorth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd gan CBSP gyda darparwyr trydydd sector, sy'n weithredol o 1 Ebrill 2021.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid y bydd cyllid yn cael ei ddal gan y Cyngor, a chyn unrhyw gynnydd, byddai CBSP yn cysylltu â darparwyr y trydydd sector i sicrhau y bydd unrhyw ddyfarniad ymgodiad yn arwain yn uniongyrchol at delerau ac amodau gwell y gweithlu. Lle y bo'n briodol, ymgynghori â'r Undebau Llafur perthnasol, a fydd yn digwydd yn ystod y cam hwn o'r trafodion.

Daeth y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid â'r adroddiad i ben, drwy gyfeirio at ei oblygiadau ariannol.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn cynnwys newyddion ardderchog ynglŷn â'r cyllid ychwanegol a fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru mewn ymgais i roi terfyn ar ddigartrefedd ar y stryd. Roedd hefyd yn falch o nodi bod partneriaethau cryf a chadarn ar waith, gyda'r trydydd sector a darparwyr, a fyddai'n helpu i sicrhau y byddai'r cynnydd o 5% iddynt mewn perthynas â Grantiau Cymorth Tai, yn cyrraedd gweithwyr rheng flaen. O ran y gwasanaeth Cychwyn, nododd y byddai hyn yn cynyddu tua 30% ac roedd hwn yn gam allweddol, gan fod y gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc a bregus sy'n gadael yr Ystâd Ddiogel. Gofynnodd, fodd bynnag, a oedd hyn yn ymwneud yn benodol ag unigolion yn gadael yr Ystâd Ddiogel yng Ngharchar y Parc, neu unrhyw ystâd ddiogel ledled Cymru a'u bod yn dychwelyd i Ben-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd y Rheolwr Comisiynu Tai Strategol fod hyn yn ymwneud ag unrhyw un sy'n gadael unrhyw ystâd ddiogel ac yn dychwelyd i'w cymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a oedd o bosibl yn ddigartref.

Canmolodd yr Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles hefyd y cynnydd o 5% fel y cyfeirir ato uchod ac yn yr adroddiad, a oedd, yn ôl ei barn hi, yn cydnabod y cyfraniadau a wnaed gan ddarparwyr trydydd sector sy'n rhoi cymorth amhrisiadwy i Gymorth Comisiwn y Grant Cymorth Tai, i helpu i gadw pobl oddi ar y strydoedd. Canmolodd hefyd y cynnydd o 32% a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyllid i helpu i ddileu digartrefedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Teimlai y byddai hyn yn gwneud llawer i sicrhau gostyngiad enfawr mewn achosion o ddigartrefedd.

Cydnabu'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, a gydnabyddir fel Aelod etholedig o Ward canol tref, y budd yr oedd cyllid ychwanegol o'r fath wedi'i roi o ran helpu i roi to uwchben pobl a oedd yn ddigon anffodus i gael eu hunain heb do uwch eu pennau. Gobeithiai y byddai'r cynnydd o 5%, mewn gwirionedd, yn cael ei elwa gan y staff a ddarparodd y gwaith hanfodol o ran rhoi cymorth ar waith i'r digartref.

Cydnabu'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai'r cynnydd hwn o hyd at 5%, yn helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn ar lawr gwlad, er bod rhai anawsterau o ran hyn i'w goresgyn, gan nad oedd y gweithwyr dan sylw yn gyflogeion CBSP.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi:

- nodi Blaenoriaethau Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22;
- cymeradwyo hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor o dan Reol 3.2.9.3 o'r rhannau perthnasol o'r Rheolau Gweithdrefn Contract ar gyfer caffael y

gwasanaethau a ddarperir o dan y Contract gyda Pobl ar gyfer y gwasanaeth cymorth generig sy'n gysylltiedig â thai a'r Contract gyda Thai Taf ar gyfer y gwasanaeth cymorth i bobl ifanc ac oedolion sy'n gadael yr ystâd ddiogel ac yn cymeradwyo'r cynnydd yng ngwerth y contract, fel y nodir yn yr adroddiad hwn a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, i ymrwymo i unrhyw gytundebau neu ddogfennau y gallai fod eu hangen i wneud amrywiadau o'r fath ar waith,

- cymeradwyo’r defnydd o ddyraniad y Grant Cymorth Tai, i barhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer prosiect llety â chymorth lefel isel Cam 2, a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021;

- atal y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor o ran y gofyniad i dendro am gontract a chytuno i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid ymrwymo i gontract gyda Pobl, er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth prosiect llety â chymorth lefel isel Cam 2.

- dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid i gymeradwyo telerau terfynol y contract gyda Pobl ar gyfer prosiect llety â chymorth lefel isel Cam 2 ar ran y Cyngor ac i drefnu i'r contract gael ei weithredu ar ran y Cyngor ar yr amod bod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol;

- cymeradwyo cynnydd o hyd at 5% yng ngwerth contract yr holl gontractau presennol a ariennir gan y Grant Cymorth Tai sydd gan CBSP gyda darparwyr cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn y trydydd sector, sy'n weithredol o 1 Ebrill 2021 yn amodol ar i'r darparwyr sicrhau bod unrhyw gynnydd gwirioneddol yn digwydd yn uniongyrchol o ran telerau ac amodau gwell i'r gweithlu a chydymffurfir â thelerau ac amodau pob contract unigol y mae CBSC wedi ymrwymo iddo gyda'r darparwyr ,

- dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, i amrywio'r contractau presennol hynny a ariennir gan y Grant Cymorth Tai sydd gan CBSP gyda darparwyr cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn y trydydd sector i gymhwyso'r cynnydd o hyd at 5% yng ngwerth y contract a llunio unrhyw gytundebau neu ddogfennau y gallai fod eu hangen i wneud amrywiadau o'r fath;

652. RHYDDHAD ARDRETHI ANNOMESTIG YN ÔL DISGRESIWN - CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH 2021-22 A CHYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI LLETYGARWCH A HAMDDEN UWCH 2021-22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, yn argymell y dylai'r Cabinet fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru a Chynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch a Hamdden Uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro - Perfformiad, Cyllid a Newid, mai nod y ddau gynllun oedd helpu busnesau i leihau eu taliadau ardrethi busnes ar gyfer y cyfnod o 01/04/21 i 31/03/22 er mwyn eu cefnogi i barhau i feddiannu safleoedd y Stryd Fawr a manwerthu, a chefnogi'r rheini yn y sectorau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru estyniad dros dro i'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch presennol ar gyfer 2021-22 i gefnogi eiddo cymwys sy'n cael ei

feddiannu drwy gynnig cymorth 100% i fusnesau yn y sector manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o dan £500,000. Manylwyd ar safleoedd a fyddai'n elwa yn Atodiad A i'r adroddiad, ond yn fras roeddent yn cynnwys y rhai a oedd â gwerth ardrethol o lai na £500,000, a siopau, tafarndai a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai ledled Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch a Hamdden Uwch ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, i gefnogi busnesau cymwys o fewn y sector lletygarwch, hamdden a thwristiaeth yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o dros £500,000. Cafodd y gwahanol gategorïau o adeiladau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth a fyddai'n elwa o ryddhad eu nodi yn Atodiad B i'r adroddiad ac roeddent yn cynnwys y rhai a oedd â gwerth ardrethol o dros £500,000, a'u bod yn westai, parciau gwyliau a stadia ledled Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer eiddo cymwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

Byddai'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2021-22 yn rhedeg ochr yn ochr â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach. Amcangyfrifwyd y byddai tua 1,000 o drethdalwyr cymwys ar draws y fwrdeistref a allai elwa o beidio â chael unrhyw gyfraddau i'w talu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 o dan y Cynlluniau hyn.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod hwn yn adroddiad "newyddion da" ac y byddai'r 1000 o fusnesau ar draws CBSP yn falch iawn o glywed bod yr awdurdod yn mabwysiadu'r fenter hon. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am eglurhad ynghylch a oedd angen i'r busnesau hynny a gymhwysodd yn 2021 ai peidio ailymgeisio am y rhyddhad. Atebodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, nad oedd angen iddynt ailymgeisio a dylid cymhwyso hyn yn awtomatig i'w cyfrifon ym mron pob achos.

Gofynnodd yr Arweinydd a ddylai busnes ddisgwyl derbyn bil gan yr awdurdod hyd yn oed os oedd am sero neu a ddylent ddisgwyl derbyn unrhyw ohebiaeth yn amlinellu eu bod wedi cael rhyddhad ardrethi ar eu cyfrif.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, y byddent yn derbyn bil gyda'r goddefeb awtomatig arno. Ychwanegodd nad oedd ganddi'r union wybodaeth gyda hi ond roedd hi o dan yr argraff bod y biliau eisoes wedi'u hanfon allan. Dywedodd yr Arweinydd y gallai busnes gysylltu â'r awdurdod os na chafodd gadarnhad bod y rhyddhad wedi'i gymhwyso a diolchodd i'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid a'i thîm am weinyddu'r cynlluniau.

<u>PENDERFYNWYD</u> Bod y Cabinet wedi mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig, Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2021-22 a'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch a Hamdden Uwch ar gyfer 2021-22 fel y nodir yn Atodiad A ac Atodiad B yr adroddiad.

653. ADRAN 33 O DDEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006, CYTUNDEB PARTNERIAETH RHWNG Y CYNGOR AC YMDDIRIEDOLAETH GIG CWM TAF MORGANNWG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ar y cynnig i ymrwymo i Gytundeb Adran 33 diwygiedig newydd Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gydag Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf Morgannwg, ynghylch darparu Cyfleoedd Iechyd Meddwl Integredig yn ystod y Dydd.

Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod Cytundeb Adran 33 gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer darparu cyfleoedd diwrnod cymunedol integredig wedi bod ar waith ers 1 Hydref 2008. Cafodd ei ddiwygio a'i ymestyn ar sawl

achlysur ers hynny a dechreuodd y Cytundeb Adran 33 presennol ar 1 Ebrill 2017 a byddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Eglurodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y gwasanaeth wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y 13 mlynedd diwethaf a bod bellach angen diweddaru Cytundeb Adran 33 a sicrhau bod y Cytundeb diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau a oedd wedi digwydd ac yn adlewyrchu'n ddigonol y sefyllfa bresennol gan gynnwys manylion cyllideb a staffio. Esboniodd fod y gwasanaeth yn cynnig cymorth ymatebol a hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan hybu adferiad person o episod o salwch meddwl. Gallai'r cyhoedd gael mynediad i'r gwasanaeth cyngor ac arweiniad heb fod angen atgyfeirio a gweithredodd y gwasanaeth fel pwynt cyswllt ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau cymunedol prif ffrwd sydd angen gwybodaeth a chyngor i gefnogi unigolion. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau trydydd sector lleol, cyflogwyr a cholegau lleol.

Amlinellodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion y sefyllfa o ran cyfraddau atgyfeirio a sut yr oedd y gwasanaeth wedi'i ddarparu yn ystod y pandemig. Roedd y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn sylweddol yn gynnar, ond erbyn hyn roedd y niferoedd wedi dychwelyd fwy neu lai i'r un graddau ag yr oeddent cyn Covid. Roedd y gwasanaeth bellach yn gweithio ar gynllun adfer ac ar dargedu cymorth ar gyfer rhannau penodol o'r boblogaeth. Byddent yn ystyried darparu cymorth cwnsela fel cwnsela profedigaeth i bobl ifanc a chwnsela perthynas deuluol yn ogystal â meysydd eraill. Byddent hefyd yn edrych ar waith a chyrsiau grŵp lles a gwydnwch a rhywfaint o ymgysylltiad cymdeithasol a chefnogaeth a gwaith yn ymwneud â chymorth dyled a chyllid a'r maes hwnnw.

Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y Cytundeb Adran 33 diwygiedig yn nodi'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth cyfunol ac yn cael ei reoli fel y nodir yn yr adroddiad. Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo ymrwymo i'r Cytundeb Adran 33 diwygiedig, byddai'n rhedeg am bedair blynedd arall, gyda'r cytundeb yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn hapus iawn i symud yr adroddiad. Roedd partneriaeth werthfawr a llwyddiannus iawn gyda'r Bwrdd Iechyd ac roeddent yn gwybod pa mor effeithiol oedd yr adnodd hwn i'r sir. Roedd y gwasanaeth ARC yn llwyddiannus iawn ac yn helpu nifer sylweddol o bobl a byddai angen iddo barhau i helpu mwy o bobl yn ystod y misoedd nesaf wrth i'r gymuned ddod allan o'r pandemig. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl wedi cael ergyd ac roedd llawer o bobl wedi cael eu hannog i beidio ag ymweld â'u meddyg teulu oherwydd gallent ei roi o'r neilltu a dim trafferthu pobl ag ef. Sicrhaodd bawb fod materion iechyd meddwl yn cael eu cymryd o ddifrif ac y dylai unigolion a brofodd y rhain geisio peidio ag ofni gofyn am help.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar sut y byddai'r awdurdod yn sylwi ar y bobl sy'n amharod i ddod ymlaen a sut y byddem yn gweithio gyda meddygon teulu mewn grwpiau clwstwr i annog pawb yr oedd angen cymorth arnynt i ddod ymlaen. Atebodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, o ran y cynllun adfer yr oeddent wedi bod yn gweithio arno gyda chydweithwyr iechyd, fod rhan ohono'n edrych ar atgyfeiriadau ac o ble y daethant ac y gallai hynny fod gan sefydliadau ac ardaloedd daearyddol. Gallent wedyn weld meysydd nad oeddent yn cael eu targedu a gwneud rhywfaint o waith yn y meysydd hynny. Roedd hyn yn cael ei fapio ar hyn o bryd ac yn rhan o gynllun ar gyfer y 12 mis nesaf. Yr oedd ganddynt fynediad uniongyrchol i wahanol grwpiau fel y gallent weithio ar feysydd yr oedd angen cymorth arnynt neu lle yr oedd angen gwella'r gwasanaeth

Atebodd yr Arweinydd fod hyn yn galonogol iawn i'w glywed ac y byddent yn cadw llygad ar y galw am wasanaethau ac, os oes angen, gellid eu cynyddu i ateb unrhyw alw ychwanegol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau y cydnabyddir bod angen mecanwaith cymorth yn fwy nag erioed erbyn hyn i'r rhai mewn cymdeithas sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi, yn enwedig gyda'r cyfyngiadau Covid-19 a osodir ar gymdeithas. Roedd pobl yn teimlo'n bryderus, ac yn methu ymdopi; byddai unigrwydd a'r ffactorau hynny'n unig yn helpu i gynyddu lefelau'r rhai sy'n ystyried hunanladdiad. Byddai hyn yn faich ychwanegol gan fod angen y gwasanaethau hyn ar bobl cyn i'r pandemig ddod i'r amlwg. Byddai'r pandemig yn tynnu sylw at yr angen oherwydd fe sylwai pobl ar y straen anhygoel sydd ar gymdeithas. Croesawodd yr adroddiad ac roedd yn arbennig o hapus nad oedd angen unrhyw atgyfeiriad ac roedd hyn yn dileu'r stigma a allai atal y rhai sy'n chwilio am gymorth. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith caled a'r gwasanaeth ARC a oedd wedi ac a fyddai'n parhau i ddatblygu ac esblygu.

Atgoffodd yr Arweinydd bobl o'r neges, os oeddent yn drist, yn ddryslyd neu'n ddig, nad oedd yn rhaid iddynt ddelio â hi ar eu pennau eu hunain. Gofynnodd iddynt gysylltu. Mewn argyfwng, roedd cymorth ar gael a byddai'n parhau i fod ar gael 24/7. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r staff a oedd wedi gweithio drwy gydol y pandemig. Nid oeddent erioed wedi bod mor brysur ac roeddent yn helpu pobl â'r amgylchiadau anoddaf ac roedd yn ddiolchgar am yr hyn yr oeddent yn ei wneud dros bobl yn y gymuned.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r cynnig i adnewyddu Cytundeb Adran 33 o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ynghylch darparu cyfleoedd iechyd meddwl integredig yn ystod y dydd.

654. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CABINET, PWYLLGOR Y CABINET RHIANTA CORFFORAETHOL A PHWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - 2021-22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer rhestr cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol a Phwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod Mai 2021-Ebrill 2022. Byddai'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn cael eu hadrodd i'w nodi yn y Rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd i'w cyflwyno i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 19 Mai 2021. Roedd hyn yn atal dyddiadau cyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor neu eu Pwyllgorau, lle bynnag y bo modd, yn gwrthdaro â'i gilydd. Nodir dyddiadau'r cyfarfodydd ym mharagraff 4 o'r adroddiad.

Symudodd yr Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yr adroddiad ac ychwanegodd fod pob un ond un o'r dyddiadau y tu allan i wyliau'r ysgol a'u bod yn "gyfeillgar i deuluoedd". Atebodd yr Arweinydd y byddent yn gallu cadarnhau'n agosach at y dyddiad hwnnw a oedd angen y cyfarfod hwnnw ai peidio neu a oedd angen newid y dyddiad. Eglurodd yr Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol fod cyfarfod Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb i fod i gael ei gynnal ar 27 Gorffennaf 2021. Doedd dim modd cyflwyno'r dyddiad oherwydd eu bod yn disgwyl adroddiad gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ddyledus bryd hynny, felly, ni ellid cynnull cyfarfod y Pwyllgor yn gynharach. Ychwanegodd yr Arweinydd eu bod yn ystyried yr effaith ar Aelodau a swyddogion wrth bennu'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y Cabinet, Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol, a chyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod Mai 2021 - Ebrill 2022 fel yr amlinellir ym Mharagraffau 4.1.2, 4.2.1 a 4.3.1 o'r adroddiad.

655. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR GYNNIG MODERNEIDDIO YSGOLION GORLLEWIN PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad ar gynnig moderneiddio ysgolion Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, canfyddiadau'r ymgynghoriad ac yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen i gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus fel y'i rhagnodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Ychwanegodd fod Rheolwr y Rhaglen Ysgolion hefyd yn bresennol yn y cyfarfod, i ateb unrhyw gwestiynau manwl ynglŷn â'r cynigion.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd y cefndir a bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2020, wedi rhoi cymeradwyaeth i ddatblygu cynlluniau Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr drwy drefniadau ariannu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Y ffordd orau ar gyfer cynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr opsiynau addysg a ffefrir o ddarparu ysgol cyfrwng Saesneg newydd â dau ddosbarth mynediad ar safle sy'n addas ar gyfer Ysgolion Cynradd Afon y Felin a Chorneli gyda'i gilydd a darparu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd â dau ddosbarth mynediad ar safle sy'n addas ar gyfer Ysgol Y Ferch O'r Sgêr wedi'i hehangu. Esboniodd fod y safleoedd a ffefrir ar gyfer yr ysgolion newydd yn cael eu pennu gan y Cabinet gan fod Cymoedd i'r Arfordir (V2C) yn berchen ar safle Ystâd Marlas a safle presennol Ysgol Y Ferch O'r Sgêr/ Canolfan Blant Integredig Corneli/Ysgol Gynradd Corneli. Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2021 rhoddodd y Cabinet ganiatâd i ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr. Amlinellodd yr adroddiad hwn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd yn ceisio cymeradwyaeth i barhau â'r cynnydd i'r cam nesaf.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod ymarferion ymgynghori wedi'u cynnal rhwng 25 Ionawr 2021 a 7 Mawrth 2021 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau a safbwyntiau i'w cyflwyno mewn perthynas â'r cynnig. Darparwyd crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymatebion yr awdurdod lleol yn yr adroddiad ymgynghori fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad. Amlinellodd gamau nesaf y broses a chyfeiriodd at yr amserlen gan roi syniad o'r amserlenni tebygol dan sylw.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, oblygiadau ariannol y cynigion a gofynnodd i'r Cabinet ystyried yr argymhellion fel y'u rhestrir yn yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio, fod hon yn eitem gadarnhaol iawn ac yn newyddion cyffrous iawn i gymuned gogledd Corneli lle byddent yn derbyn dwy ysgol 21[ain] ganrif newydd. Menter gydweithredol oedd hon gyda'r gymdeithas dai, V2C. Roeddent wedi cael cyfarfodydd gyda hwy a'r aelodau lleol a bu'r rhain yn gyfarfodydd cadarnhaol iawn. Byddai'r cynllun yn cynnwys cyfnewid tir a oedd yn ffordd arloesol iawn o fynd ati i wneud hyn. Byddent hefyd yn sicrhau bod cymaint o barhad â phosibl yn ogystal â newid. Ni fyddai'n rhaid i unrhyw blentyn nac athro symud safle nes bod y cyfleusterau newydd yn barod a bod hynny wedi'i gynnwys yn y dilyniannu. Pwysleisiodd nad menter gwneud arian na thorri costau oedd hon. Rhaglen foderneiddio oedd hon gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a CBSP a buddsoddiad yn nyfodol Corneli, cymuned sy'n tyfu'n gyflym. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio, at hanes ysgolion yn ardal Corneli a newidiadau dros y blynyddoedd a'i empathi ei hun â'r ardal lle'r oedd yn byw pan briododd gyntaf.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio i rai amheuon a godwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch uno Afon y Felin ag ysgol fwy. Roedd am dawelu meddyliau pobl nad oedd bod mewn ysgol fwy yn golygu y byddai plentyn yn cael ei golli, nac y byddai ethos yr ysgol fach yn cael ei golli. Roedd cyfyngiadau ar faint dosbarthiadau

ysgol a byddent yn gweithio'n galed i sicrhau bod ethos ysgol bentref yn parhau mewn ysgol fwy. Awgrymodd, pan fyddai amodau'n caniatáu iddynt fynd â rhieni a llywodraethwyr ac athrawon i weld sefyllfaoedd tebyg ym Mhencoed a Brynmenyn lle'r oedd ysgol bentref wedi cael ei disodli gan ysgol 21ain ganrif newydd. O gael dewis, ni fyddai neb yno am fynd yn ôl.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod hyn yn gadarnhaol iawn a bwriad y Cabinet oedd i bob plentyn gael y profiad addysg gorau a'u bod yn darparu cyfleusterau dysgu o safon a phrofiadau sy'n ystyriol o'r gymuned. Gofynnodd pa adborth yr oeddent wedi'i gael gan lywodraethwyr ysgol ynglŷn â'r broses. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gan CBSP lywodraethwyr ysgol rhagorol ar draws yr holl ysgolion ac, fel y soniwyd eisoes, anfonwyd dolen i'r ddogfen ymgynghori at yr holl randdeiliaid. Yn ogystal, cafwyd cyfarfod rhithwir gyda llywodraethwyr ac roedd canlyniad y cyfarfod yn yr adroddiad. At ei gilydd, roedd yr adborth yn gadarnhaol. Roedd ganddynt amrywiaeth o gwestiynau yn edrych ar staffio ac fe'u cynghorwyd bod hyn yn rhywbeth y byddent yn gweithio drwyddo. Roeddent yn mwynhau perthynas ragorol â llywodraethwyr yr ysgolion hyn a byddent yn parhau i weithio gyda nhw wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Roedd yr Arweinydd yn falch o weld bod cefnogaeth eang gan lywodraethwyr ar y cyfan. Yn ddealladwy, roedd cwestiynau ac ni fyddai rhai o'r manylion ar gael yn y cyfnod cynnar hwn. Rhan o ddiben yr ymgynghoriad oedd llunio'r cynigion wrth iddynt fynd rhagddynt a byddent yn parhau i weithio'n agos gyda'r tri chorff llywodraethu i'r perwyl hwn.

Croesawodd yr Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yr adroddiad a chytunodd y dylent symud i'r cam nesaf i ymgynghori â'r cyhoedd. Gofynnodd beth a ddysgwyd o uno CCYD y gellid ei gyflwyno i'r prosiect hwn. O ran yr ymgynghoriad, gofynnodd am ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, oherwydd ei bod wedi darllen gyda diddordeb yr adborth gan y disgyblion a llais y dysgwr. Dylai'r plant hynny nad ydynt yn gallu ymgysylltu â'r brif ffrwd hefyd gael cyfle i roi sylwadau ar y newidiadau. Yn rhywfaint o'r adborth roedd pryderon ynghylch colli cyfleusterau cymunedol a gofynnodd sut yr ymdrinnid â hyn yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi hynny. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet hefyd at yr amserlen a gofynnodd beth fyddai'n digwydd rhwng 9 Mehefin 2021 ac 1 Medi 2023.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, o ran gwersi dysgu o adeiladau blaenorol, gyda'r ysgolion Band A eu bod yn cynnull grŵp o'r holl benaethiaid a gyfarfu'n fisol. Mynychodd y cyfarfodydd hynny hefyd a lluniodd restr o elfennau allweddol a gafodd eu trosglwyddo wedyn i'r tîm Moderneiddio Ysgolion. Byddai Penaethiaid y cynlluniau newydd mewn cysylltiad â'r grŵp o'r cynllun blaenorol a byddai'n cael ei arwain ac yn rhannu profiadau. O ran y dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, roeddent yn cydnabod bod angen iddynt ymgynghori â phob dysgwr. O ddechrau'r broses, roeddent wedi anfon dolen at yr holl rieni a gofalwyr felly roeddent yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd ac roeddent hefyd wedi cyfarfod â'r Cynghorau Ysgol a chynrychiolwyr o'r ysgolion. Pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu yna, fel gyda phob adeilad newydd, pan gyrhaeddon nhw'r cam dylunio byddent yn gweithio gyda phob disgybl i sicrhau bod eu hadborth yn rhan o'r broses ddylunio. Yn ogystal, roedd yn rhaid i bob ysgol newydd gydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a mesurau rheoli adeiladu. Byddent hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth cynhwysiant i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu diwallu.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai'r elfen allweddol o ran defnydd cymunedol oedd caniatáu mynediad i'r gymuned. Roedd tri maes allweddol yr oeddent yn edrych arnynt, cyfleusterau dan do ac awyr agored

priodol a mynediad wi-fi cymunedol yn yr adeilad a'r ystafelloedd pwrpasol y byddai'r corff llywodraethu'n penderfynu ar y defnydd ohonynt.

Ychwanegodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion, mewn perthynas ag adeiladu CCYD a'r gwersi a ddysgwyd, ei bod yn bwysig iawn dod â'r ddwy ysgol at ei gilydd yn gynnar i sicrhau bod yr ethos yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol newydd. Yr oedd honno'n wers enfawr ac yr oedd staff yr ysgolion a oedd yn rhan o'r cynigion newydd eisoes wedi gofyn am hyn er mwyn sicrhau eu bod yn dechrau ar y sylfaen orau a oedd yn galonogol iawn.

Esboniodd yr Arweinydd fod llawer o wersi wedi'u dysgu dros y blynyddoedd o nifer o gyfuniadau a rhaglen resymoli felly roedd amrywiaeth o brofiadau gwahanol. Yr elfen hollbwysig oedd ymrwymiad yr ysgolion i gydweithio a gwneud llwyddiant o'r cynigion hyn. Mewn unrhyw ysgol newydd a oedd yn floc adeiladu sylfaenol i sicrhau amgylchedd llwyddiannus a chynaliadwy i blant.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau at atodiad 3 yr adroddiad ac yn arbennig y timau sy'n cyfarfod â'r Cyngor Ysgol, i dynnu sylw at yr hyn y mae'r plant yn ei wneud am y newid. Roedd dyfnder y cwestiynau a ofynnwyd gan y disgyblion yn ddiddorol ac roedd yn amlwg bod y plant yn deall yn union beth oedd yn digwydd. Cafodd y cwestiynau eu targedu a'u holi ac yn ôl y disgwyl, dangosodd fod addysg Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ansawdd uchel iawn. Pan ofynnwyd i'r cynrychiolwyr a oedd hyn yn syniad da, roeddent i gyd yn cytuno ei fod ac yn hapus â'r cynigion. Diolchodd i'r holl swyddogion a gymerodd ran am eu gwaith caled, i'r perwyl hwn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref a sut y gellid ymestyn mynediad i hyn ar yr un pryd â gwella'r cyfleusterau a'r adeiladau i blant yn yr addysg cyfrwng Saesneg. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd amlinellu'r cynlluniau presennol o ran addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer gorllewin y fwrdeistref.

Ailadroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, fod hyn yn flaenoriaeth enfawr i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Roedd hyn yn ymddangos fel rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-arolygiad Estyn ac roeddent yn angerddol iawn am fodloni gofynion a'r targedau ar gyfer y gorllewin ac roedd hyn yn flaenoriaeth uchel. Roedd 2 elfen yn y gorllewin, gwelliant sylweddol i safle Ysgol Y Ferch O'r Sgêr gan ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i ddysgwyr yn yr ardal honno, a hefyd darnau o waith yn ymwneud â chynyddu'r ddarpariaeth ym Mhorthcawl. Roedd y rhain yn ddwy ran ar wahân ond pwysig iawn o'r rhaglen foderneiddio a'u bwriad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y fwrdeistref sirol, ychwanegodd.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod, yn bersonol, yn gyffrous iawn am y cynigion ac roedd yn ymwybodol o ba mor gyffrous oedd aelodau'r gymuned ynglŷn â'r cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y dref.

Ategodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio nifer o bwyntiau. Roedd rhagdybiaethau a chamsyniadau yn yr adborth a'r angen i siarad â phobl i'w hargyhoeddi y byddai popeth yn iawn ac nad oedd angen poeni. Mynegwyd pryderon gan Afon y Felin y byddai disgyblion yn fwy dienw mewn ysgol fwy gyda dosbarthiadau mwy. Roedd yn bwysig dangos i ddisgyblion a rhieni beth a ddigwyddai mewn ysgol wedi'i moderneiddio a'r ffordd yr oedd yr ysgol a'r dosbarthiadau'n cael eu rheoli, er mwyn cadw ethos yr ysgol fach. Hefyd, tybiwyd pe baent yn ehangu yng Nghorneli, na fyddai darpariaeth ym Mhorthcawl ond roedd hynny'n anghywir. Roedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer Porthcawl a byddai'r cynlluniau hynny'n cael eu llunio yn y dyfodol agos.

Ychwanegodd yr Arweinydd nad oedd Ysgolion Cynradd Afon Y Felin a Chorneli ac Ysgol Y Ferch O'r Sgêr yn addas i'r diben. Roedd gan bob un ohonynt ôl-groniadau sylweddol o waith a gwaith cynnal a chadw a hyd yn oed pe bai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau ni fyddai'r ysgolion o'r safon ddisgwyliedig. Nid oedd am i'r awdurdod fod yn y sefyllfa lle'r oeddent yn ymateb i ôl-groniad o atgyweiriadau a hyd yn oed pe bai arian ar gael, ni fyddai'n gwneud yr ysgol yn addas ar gyfer y tymor hir. Edrychodd ymlaen at gam nesaf y prosiect ac roedd am glywed barn pobl am sut y gallent wneud hyn yn un blaenllaw. Byddent yn gweithio gyda'r penaethiaid, yr athrawon, yr holl staff, llywodraethwyr a phobl ifanc.

PENDERFYNWYD Bod y Cabinet wedi:

- Nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â diddordeb fel y nodir yn yr adroddiad ymgynghori a'r atodiadau amgaeedig;
- Cymeradwyo'r adroddiad ymgynghori i'w gyhoeddi;
- Awdurdodi cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus ar y cynnig; a
- chymeradwyo gweithredu'r cynnig, pe na bai unrhyw wrthwynebiadau ar ddiwedd y cyfnod rhybudd cyhoeddus.

656. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30